# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd

## Cofnodion EDT(2) 13-05

Dyddiad y cyfarfod: 20 Hydref 2005

Amser y cyfarfod: 9.30-12.30

Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Caerdydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Tamsin Dunwoody | Preseli Sir Benfro |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Bob Macey | Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Rob Halford | Yr Is-adran Polisi Economaidd |

| | |
|---|---|
| Robin Shaw | Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon

1.1 Nododd y Cadeirydd fod Lisa Francis wedi ymddiheuro

## Eitem 2: Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth 2006 - 2007

### Papur: EDT(2) 13-05 (p.1)

Camau i'w cymryd

2.1 Datganodd Elin Jones fuddiant gan ddweud bod ganddi bensiwn Awdurdod Datblygu Cymru, a gaiff ei reoli gan RCT.

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i baratoi nodyn cysoni ar gostau rhedeg Awdurdod Datblygu Cymru.
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i roi rhagor o wybodaeth am y trefniadau ariannol sy'n bod mewn perthynas ag Is-adran Tir Awdurdod Datblygu Cymru.
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y dyddiad y bydd cynllun peilot tocynnau consesiynol ar gyfer pobl 16-25 oed yn dechrau yn Wrecsam.
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i roi rhagor o wybodaeth am gymorthdaliadau i deithwyr rheilffordd a chymorth i orsafoedd.
- Cytunodd y Clerc i ysgrifennu at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn nodi'r materion a gododd y Pwyllgor ynghylch y Gyllideb.

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Papur: EDT(2) 13-05 (p.2)**

3.1 Datganodd Leighton Andrews fuddiant gan ddweud mai ei wraig oedd Cyfarwyddwr BT Cymru

Camau i'w Cymryd

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i roi ffigyrau i'r Pwyllgor mewn perthynas ag ymgyrchoedd hysbysebu WDA i hybu gweithgarwch entrepreneuriaeth. (ymgyrch 'Gallwch'.)

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i baratoi nodyn ar gyfer y Pwyllgor ynghylch hynt prosiect Cymorth Band Eang Arloesol Rhanbarthol

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i baratoi ffigyrau o Iwerddon ar gyfer y Pwyllgor ynghylch y cyfleoedd y mae'r dwristiaeth golff wedi'u creu.

## Eitem 4: Canllawiau Cymorth Rhanbarthol Drafft

**Papur: EDT(2) 13-05 (p.3)**

Camau i'w cymryd

- Cytunodd y swyddogion i egluro beth oedd yr ardal leiaf y gallai aelod-wladwriaeth ei hystyried yn ardal Erthygl 87(3)c posibl.

## Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi

**Papur: EDT(2) 11-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi**
**Papur: EDT(2) 12-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref**
**Papur: EDT(2) 13-05 - Camau heb eu cymryd**

- Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Medi a 6 Hydref yn gofnod cywir.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**